**Carl Sargeant AC / AM**
**Y Gweinidog Tai ac Adfywio**
**Minister for Housing and Regeneration**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: LF/CS/00341/14

Christine Chapman AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

1 Ebrill 2014

Annwyl Christine

**Bil Tai (Cymru): Adroddiad Cyfnod 1 y Pwyllgor – y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol**

Mae'r adroddiad a luniwyd gan eich Pwyllgor yn tynnu sylw at y pryderon sydd gan aelodau ynglŷn â diwallu anghenion cyn garcharorion o ran tai yn sgil y bwriad i ddiwygio'r categorïau angen blaenoriaethol. O ystyried hynny, efallai y byddai'n fuddiol imi roi'r wybodaeth ddiweddaraf ichi am y camau sydd ar droed i wella'r trefniadau presennol.

Chwi gofiwch, efallai, imi ysgrifennu atoch ar 19 Chwefror 2014, gan amgáu nodyn ar gyfer y Pwyllgor ynglŷn â'r Gweithgor Llety ac Ailsefydlu Carcharorion. Fy mwriad, wrth sefydlu'r gweithgor hwnnw, oedd sicrhau y bydd pob cyn garcharor yn gallu manteisio ar y gwell gwasanaethau digartrefedd a fydd yn deillio o Ran 2 o'r Bil. Roedd y nodyn hwnnw'n disgrifio'r Gweithgor, ei aelodaeth, a'r materion a'r blaenoriaethau y bydd gofyn iddo eu hystyried. Aed ati hefyd i amlinellu'r gwaith y mae'n bwriadu ei wneud. Fy nod, yn y pen draw, yw pennu safon genedlaethol ar gyfer y cymorth tai a roddir i garcharorion, a dangosir hynny yn y rhaglen waith atodedig.

Amgaeaf hefyd wybodaeth am y camau a gymerwyd eisoes ac am gamau gweithredu pellach sydd ar y gweill. O ystyried ymroddiad yr amrywiaeth eang o randdeiliaid sy'n gysylltiedig â'r gweithgor, rwy'n ffyddiog y bydd gennym drefniadau gwell o lawer i helpu carcharorion â'u hanghenion o ran llety cyn iddynt gael eu rhyddhau, a hefyd, lle bo angen i'w helpu â materion yn ymwneud â thai pan fyddant yn cael eu remandio. Mae'r pwynt olaf

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Correspondence.Carl.Sargeant@wales.gsi.gov.uk

*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)*
*Printed on 100% recycled paper*

hwn yn arbennig o bwysig er mwyn helpu i osgoi sefyllfa lle gallai'r rheini sydd ar remand neu yn y carchar am gyfnodau cymharol fyr golli eu tenantiaeth.

Rwy'n ymrwymedig i gynnig gwell cymorth i bob carcharor, gan gynnwys y rheini sy'n agored i niwed. Fel yr wyf wedi dweud eisoes, rwyf hefyd yn cadarnhau'n hymrwymiad i ddiwallu anghenion pobl agored i niwed drwy gyfeirio at iechyd corfforol a meddyliol ac anabledd ar wyneb y Bil, yn ogystal â chynnwys diffiniad o fod yn agored i niwed.

Cofiwch fod croeso ichi gysylltu â mi os bydd gennych chi neu unrhyw aelodau o'ch Pwyllgor unrhyw gwestiynau pellach am y Gweithgor a'i waith.

Yn gywir

**Carl Sargeant AC / AM**
Y Gweinidog Tai ac Adfywio
Minister for Housing and Regeneration

# Y Gweithgor Llety ac Ailsefydlu Carcharorion
## Rhaglen Waith 2014/15: Elfennau allweddol

| | Camau | Llinell Amser |
|---|---|---|
| 1 | Sefydlu'r Gweithgor Llety ac Ailsefydlu Carcharorion | Ionawr 2014 |
| 2 | Cyfarfodydd cychwynnol (3) i bennu cwmpas y materion i'w trafod a datblygu rhaglen waith | Ionawr/Chwefror 2014 |
| 3 | Nodi anghenion cychwynnol y prosiect | Chwefror/Mawrth2014 |
| 4 | Paratoi briff cychwynnol ar ddatblygiadau yng Nghymru i roi gwybodaeth i dendrwyr am gontractau'r Cwmni Adsefydlu Cymunedol | Chwefror 2014 |
| 5 | Prosiect: Mapio'r gwasanaethau a'r ddarpariaeth bresennol i nodi systemau cefnogi sydd ar waith, unrhyw fylchau a datblygiad pellach sydd ei angen – y prosiect yn dechrau | Mawrth 2014 |
| 6 | Prosiect: Cwmpasu a datblygu cynnig ar gyfer llwybr i garcharorion benywaidd | Mawrth 2014 |
| 7 | Prosiect: Llunio is-grŵp ar gyfer cydlynu llwybrau ar gyfer pob carcharor yng Ngharchar y Parc, gan ganolbwyntio'n benodol ar garcharorion agored i niwed sydd ag anghenion iechyd meddwl. | Mawrth 2014 |
| 8 | Cyflwyno'r Strategaeth Lleihau Aildroseddu (yn berthnasol i waith y grŵp) | Mawrth 2014 |
| 9 | Prosiect: Mapio'r gwasanaethau a'r ddarpariaeth bresennol – adroddiad cychwynnol (gweler y nodyn o dan y tabl) | Ebrill 2014 |
| 10 | Datblygu Canllawiau Strategol: Sefydlu is-grŵp drafftio | Ebrill 2014 |
| 11 | Prosiect: Mapio'r gwasanaethau a'r ddarpariaeth bresennol – Digwyddiadau Datblygu Rhanbarthol (3) | Ebrill/Mai 2014 |
| 12 | Prosiect: Carchar y Parc– y prosiect yn dechrau | Mai 2014 |
| 13 | Prosiect: Mapio'r gwasanaethau a'r darpariaeth bresennol – adroddiad terfynol, gan gynnwys adroddiad o'r Digwyddiadau Datblygu Rhanbarthol | Mai 2014 |
| 14 | Adolygu prosiectau presennol: Adolygiad ac arfarniad beirniadol o'r cymorth a ddarperir drwy ffrydiau cyllido prosiectau presennol – adolygiadau yn cychwyn | Mai 2014 |
| 15 | Prosiect: Prosiect llwybr i garcharorion benywaidd – prosiect yn dechrau | Mehefin 2014 |
| 16 | Adolygu prosiectau presennol: Adolygu cymorth sy'n ymwneud â thai a gynigir i gyn-garcharorion o dan y rhaglen Cefnogi Pobl – dechrau gwerthuso | Mehefin 2014 |

| | | |
|---|---|---|
| 17 | Canllawiau Statudol: Canllawiau drafft ar gael ac wedi'u hadolygu | Medi 2014 |
| 18 | Adolygu prosiectau presennol: Casgliadau ac argymhellion yn sgil adolygiad ac arfarniad beirniadol o brosiectau presennol | Hydref 2014 |
| 19 | Prosiect: Carchar y Parc– adroddiad interim | Hydref 2014 |
| 20 | Adolygu prosiectau presennol: Adolygu cymorth sy'n ymwneud â thai a gynigir i gyn-garcharorion o dan y rhaglen Cefnogi Pobl – adroddiad terfynol | Tachwedd 2014 |
| 21 | Prosiect: Cynllun peilot llwybr i garcharorion benywaidd– adroddiad interim | Rhagfyr 2014 |
| 22 | Cyhoeddi safon genedlaethol ar gyfer darparu cymorth tai i garcharorion | Rhagfyr 2014 |
| 23 | Rhaglen hyfforddi wedi'i llunio yn sgil canfyddiadau'r prosiectau peilot a'r safon genedlaethol | Rhagfyr 2014 |
| 24 | Prosiect: Carchar y Parc– adroddiad terfynol | Mawrth 2015 |
| 25 | Prosiect: Llwybr carcharorion benywaidd – adroddiad terfynol | Mawrth 2015 |

Nodyn:

Yn sgil yr adborth cychwynnol o'r prosiect peilot mapio, nodwyd cyfleoedd i gael astudiaethau ychwanegol a/neu brosiectau peilot. Mae'r rhain yn cael eu hystyried a byddant yn llywio rhaglen waith y Grŵp wrth iddo ehangu yn y dyfodol.

- Gwaith ataliol rhwng tîm opsiynau Tai Abertawe a Charchar Abertawe
- Prosiect peilot cymorth tai Ynys Môn
- Dull canolbwynt rhanbarthol
- Dull canolbwynt trawsffiniol
- Trefniadau cyfatebol
- Cynllun peilot protocol "Cyfle Gwell/A Better Chance", a ddatblygwyd rhwng partneriaid cyfiawnder troseddol yn 2006, ledled Gogledd Cymru
- Mynd i'r afael â materion yn ymwneud â gadael llety dros dro